- Mae nifer o'r pynciau'n cefnogi astudiaeth bellach yn uniongyrchol yn y brifysgol mewn meysydd fel peirianeg, gwyddoniaeth a mathemateg.

I bwy mae'r cwrs?

I fyfyrwyr sydd:

- wedi cyflawni gradd A*/A yn y TGAU;
- yn wir fwynhau mathemateg ac a fydd yn cael eu hysbrydoli a'u herio gan y Safon Uwch mewn Mathemateg Bellach;
- yn gwneud cais am gyrsiau sy'n ymwneud â pheirianeg a ffiseg yn y brifysgol am ei fod yn aml naill ai'n ofyniad neu'n argymhelliad cryf ar gyfer cael lle ar y cyrsiau hyn, yn ogystal â graddau Mathemateg, mewn prifysgolion da.

Sut gewch chi eich asesu?

Mae'r asesiad yn gyfan gwbl drwy arholiadau ar ddiwedd blwyddyn 12 a 13.

Gofynion mynediad:

Gradd A*/A mewn TGAU Mathemateg

Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Amrywiaeth eang o bynciau gradd mewn peirianeg fel peirianeg Awyrennaeth, Sifil, Mecanyddol, Modur neu Adeiladu, Pensaerniaeth, Cyfrifeg a Chyllid, Biocemeg, Gwyddor Cyfrifiaduron, Gwyddor Defnyddiau, Mathemateg, Fferylliaeth, a graddau wedi eu seilio ar Ffiseg fel Astroffiseg a Ffiseg Niwclear, Mesur Meintiau a Radiograffeg.

FURTHER MATHS

WJEC A LEVEL / YSGOL ABERCONWY

What will you study?

- Units of pure mathematics, mechanics and statistics.
- Each of these units builds on knowledge from GCSE and topics being studied in parallel in AS and A Level Mathematics lessons.
- Many of the topics directly support further study at university in areas such as engineering, science and mathematics.

Who is the course for?

Students who:

- have achieved an A*/A grade at GCSE;
- have a genuine love of mathematics and will find the Further Maths A Level inspiring and challenging;
- are applying for engineering and physics related courses at university as it is frequently either a requirement or a strong recommendation for entry onto these courses, as well as Mathematics degrees, at good universities.

How will you be assessed?


Assessment is entirely through examinations at the end of Year 12 and 13.


Entry requirements:

Grade A*/A in GCSE Mathematics

Your options after the course:

A wide range of engineering degree subjects such as Aeronautical, Civil, Mechanical, Automotive or Construction, Architecture, Accounting & Finance, Biochemistry, Computer Science, Materials Science, Mathematics, Pharmacy, Physics based degrees such as Astrophysics and Nuclear Physics, Quantity Surveying and Radiography.





I decided to take this course after I read the LINC prospectus and researched other options. What we do in this course has been so interesting. I enjoy this course and would like to work in media in the future and I feel that this course is the right pathway to take. I found the college to be friendly and tutors/staff are very supportive. It is also interesting to get to know learners from other schools.

ALMAENEG

LEFEL A CBAC / YSGOL ABERCONWY

Beth fyddwch yn ei astudio?

Byddwch yn astudio pedwar maes gyda thema gan gyfeirio at wledydd sy'n siarad Almaeneg yn ogystal â'r iaith mewn cyd-destun byd-eang ehangach fel y bo'n briodol. Dyma nhw:

- Yr Unigolyn, perthnasoedd, addysg a chyflogadwyedd
- Diwylliant a threftadaeth, y Celfyddydau
- Amrywiaeth ac ymleiddio mewn cymdeithas
- Materion Cymdeithasol a Gwleidyddol

I bwy mae'r cwrs?

Mae'r cwrs Lefel A Almaeneg i ddysgwyr sydd:

- â diddordeb mewn dysgu ieithoedd ac yn frwdfrydig ynglŷn â dysgu ieithoedd;
- eisiau cyfathrebu'n hyderus ar y lefel uwch mewn Almaeneg;
- eisiau ehangu eu gorwelion yn y dyfodol;
- yn barod i weithio'n galed.

Nod y cwrs fydd:

- datblygu dealltwriaeth o'r iaith Almaeneg mewn amrywiaeth o gyd-destunau a genres;
- gwella sgiliau ieithyddol a datblygu meddwl beirniadol drwy astudio iaith a diwylliant;
- datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gymdeithas gyfoes a threftadaeth a chefnid diwylliannol gwledydd neu gymunedau lle siaredir Almaeneg;
- meithrin cariad at iaith a'r gallu i ddysgu ieithoedd eraill;
- datblygu sgiliau ymchwilio a sgiliau trosglwyddadwy eraill.

Sut gewch chi eich asesu?

Mae'r asesiad wedi'i rannu'n ddwy uned ar Lefel UG a thair arall ar Lefel A2.

- Uned 1 – Asesiad Llafar
- Uned 2 – Arholiad Gwrando, Darllen, Cyfieithu ac Ysgrifennu
- Uned 3 – Asesiad Llafar ar waith ymchwil Annibynnol
- Uned 4 – Arholiad Gwrando, Darllen, Cyfieithu ac Ysgrifennu
- Uned 5 – Ymateb Berniadol a Dadansoddol i waith Llenyddol yn yr iaith Almaeneg

Gofynion mynediad:

Gradd B neu'n uwch mewn TGAU Almaeneg Haen Uwch.

Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Mae modd astudio Almaeneg fel gradd sengl neu gyd-anrhydedd ochr yn ochr â phynciau eraill ar lefel prifysgol. Mae cymhwyster iaith dramor yn un deniadol i gyflogwyr y dyfodol neu wrth wneud cais i gael lle mewn prifysgol, yn enwedig yn yr economi fyd-eang sydd ohoni ar hyn o bryd. Yn mynd gwaith gall y bobl broffesiynol yma elwa o ddeall iaith dramor megis Almaeneg: meddygon, nyrsys, sieffiaid, rheolwyr gwerthu, gwerthwyr, athrawon, cyfarwyddwyr marchnata, prynwyr, peilotiaid, bancwyr, llyfrgellwyr, peirianwyr, cyfrifyddion, cludwyr, cyfreithwyr, gweithwyr mewn bwytai, gweithwyr mewn siopau, criw ar long, gwerthwyr gwyliau, y gwasanaeth sifil, telegyfathrebu, cynllunwyr awyrennau, ysgrifenyddion, gwerthwyr yswiriant, cyhoeddwyr rhyngwladol, y lluoedd arfog, llongau masnach, a llawer iawn mwy.

GERMAN

WJEC A LEVEL / YSGOL ABERCONWY

What will you study?

Four themed areas are studied with reference to German speaking countries as well as in a wider, global context as appropriate. These are:

- The Individual, relationships, education and employability
- Culture and heritage, the Arts
- Diversity and marginalisation in society
- Social and Political Issues

Who is the course for?

The German A Level course is for learners who:

- are interested in and enthusiastic for language learning;
- wish to communicate at the higher level with confidence in German;
- wish to broaden their horizons in the future;
- are prepared to work hard.

The course will aim to:

- develop an understanding of the German language in a variety of contexts and genres;
- enhance linguistic skills and develop critical thinking through the study of language and culture;
- develop an awareness and understanding of the contemporary society, cultural background and heritage of countries or communities where German is spoken;
- foster a love of language and ability to learn others;
- develop research and other transferable skills.

How will you be assessed?

Assessment is divided into two units at AS Level and a further three at A2.


- Unit 1 – Speaking Assessment
- Unit 2 – Listening, Reading, Translation and Writing exam
- Unit 3 – Speaking Assessment on Independent research
- Unit 4 – Listening, Reading, Translation and Writing Exam
- Unit 5 – Critical and Analytical response to a Literary work in German

Entry requirements:

Grade B or above in GCSE German Higher Tier.

Your options after the course:

German can be studied as a single or joint degree alongside other subjects at university level. A foreign language qualification is an attractive one to have in the eyes of any future employer or when applying to any university, especially in the current global economy. In the world of work, the following professionals can benefit from having a foreign language such as German: doctors, nurses, chefs, sales managers, salesmen, teachers, marketing directors, buyers, pilots, bankers, librarians, engineers, accountants, couriers, lawyers, waiters, shop assistants, ferry crew, tour operators, civil service, telecommunications, aeroplane designers, secretaries, insurance agents, international publishers, armed forces, merchant shipping, just to mention a few.



I chose this course because I want to work in Criminology. I learnt about this course from the LINC prospectus which caught my attention. I have some friends from my school who are attending the course, so it is not too difficult to follow the course away from my own school. Teachers are very helpful so I can get on with studying.



IECHYD A GOFAL CYMDEITHSOL, A GOFAL PLANT

CBAC A CITY & GUILDS LEFEL A / YSGOL BRYN ELIAN

Beth fyddwch chi'n ei astudio?

Mae'r cymhwyster hwn yn eich galluogi chi i ddatblygu a dangos gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant drwy:

- hybu iechyd a lles;
- gefnogi iechyd, lles a gwydnwch yng Nghymru;
- roi safbwyntiau damcaniaethol am ddatblygiad lant a phobl ifanc;
- roi safbwynt damcaniaethol am ymddygiad oedolion;
- gefnogi oedolion i gynnal iechyd, lles a gwydnwch.

I bwy mae'r cwrs?

I ddysgwyr sydd â diddordeb mewn dysgu am ofal a datblygiad unigolion drwy gydol eu bywydau, o genhedliad i oedolaeth hŷn.

Sut gewch chi eich asesu?

Mae'r cwrs wedi ei rannu'n chwe uned. Mae dwy uned UG a phedair uned A2: dwy uned a dwy uned A2 sy'n ymwneud â llwybr dewisol.

50% o asesiad mewnol a 50% o asesiad allanol.

Gofynion mynediad:

Mae'r cymhwyster yn darparu llwybr cynnydd addas i ddysgwyr sydd wedi astudio cymwysterau Lefel 2 o fewn y cwrs iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant. Mae'r cwrs yn addas hefyd i ddysgwyr sydd heb astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r blaen ond sydd â'r gallu i astudio Safon Uwch.

Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Symud ymlaen i swydd ar lefel hyfforddai o fewn amrywiaeth o amgylcheddau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant. Symud ymlaen i wneud cymwysterau pellach mewn amrywiaeth o gyrsgiau lefel gradd neu HND mewn pynciau sy'n ymwneud ag iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant, er enghraifft bydweigiaeth.

HEALTH AND SOCIAL CARE, AND CHILDCARE

WJEC AND CITY & GUILDS A LEVEL / YSGOL BRYN ELIAN

What will you study?

The qualification enables you to develop and demonstrate knowledge, skills and understanding within the context of health and social care, and childcare by:

- promoting health and well-being;
- supporting health, well-being and resilience in Wales;
- providing theoretical perspectives of children and young people's development;
- providing theoretical perspective of adult behaviour;
- supporting adults to maintain health, well-being and resilience.

Who is the course for?

Learners who are interested in learning about the development and care of individuals throughout the life span from conception to later adulthood.

How will you be assessed?

The course is divided into six units. Two AS units and four A2 units: two units plus two A2 units relating to a chosen pathway. 50% internal assessment and 50% external assessment.

Entry requirements:

The qualification provides a suitable progression route for learners who have studied Level 2 qualifications within the health and social care, and childcare course. The course is also suitable for learners who have not previously studied Health and Social Care but who are capable of A Level study.

Your options after the course:

Progression into employment at trainee level within a range of health, social care and child care environments.

Progression into further qualifications in a variety of HND or degree level courses in health, social care and child care related subjects such as midwifery.

Y GYFRAITH

TYSTYSGRIF ESTYNEDIG BTEC MEWN CYFRAITH
GYMHWYSOL / YSGOL EMRYS AP IWAN

Beth fyddwch yn ei astudio?

- Datrys Anghydfod mewn Cyfraith Sifil.
- Archwilio Agweddau o Gyfraith Droseddol a'r System Gyfreithiol.
- Gweithredu'r Gyfraith.
- Byddwch yn astudio un o'r unedau opsiynol a ganlyn: Agweddau o Gyfraith Teulu; Cyfraith y Defnyddiwr; Cyfraith Contract; Agweddau o'r Gyfraith Gamweddau.

I bwy mae'r cwrs?

I ddysgwyr sydd eisiau:

- cyflwyniad dealladwy i astudiaethau'r gyfraith;
- trosolwg ar wahanol agweddau o'r gyfraith;
- archwilio'r mecanweithiau y mae'r gyfraith yn tyfu ac yn datblygu drwyddynt wrth i gymdeithas newid;
- sail ragorol ar gyfer gweithio tuag at yrfa yn y sector cyfreithiol.

Sut gewch chi eich asesu?

Byddwch yn astudio dwy uned orfodol yn ystod y flwyddyn gyntaf. Asesir un uned drwy arholiad allanol ac mae'r llall yn cael ei hasesu'n fewnol.

Yn yr ail flwyddyn mae'r pwnc gorfodol (Gweithredu'r Gyfraith) yn cael ei asesu drwy arholiad allanol. Yna mae'r cwrs yn caniatáu i'r pwnc opsiynol gael ei asesu'n fewnol.

Gofynion mynediad:

Am fod cymaint o alw am y cwrs yma, gofynnir i ymgeiswyr fod â 5 TGAU o leiaf, gradd C neu'n uwch, yn cynnwys pwnc yn y Dyniaethau ac o leiaf radd B yn yr Iaith Saesneg.

Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Mae'r cwrs yn rhedeg dros 2 flynedd ac o'r un maint ag un Lefel A. Mae'r cymhwyster yn rhoi cychwyniad cadarn i ddechrau astudio'r gyfraith ac yn sail o'r radd orau ar gyfer mynd ar ôl gyfraith yn y gyfraith.

LAW

BTEC EXTENDED CERTIFICATE IN APPLIED LAW /
YSGOL EMRYS AP IWAN

What will you study?

- Dispute Solving in Civil Law.
- Investigating Aspects of Criminal Law & the Legal System
- Applying the Law.
- One of the following optional units will be studied: Aspects of Family Law; Consumer Law; Contract Law; Aspects of Tort.

Who is the course for?

Learners who want:

- a coherent introduction to the study of law;
- an overview of different aspects of law;
- to explore the mechanisms via which law grows and develops as society changes;
- the basis of an excellent route for the pursuit of a career in the legal sector.

How will you be assessed?

Two compulsory units are studied during the 1st year. One unit is assessed by an external exam and the other is assessed internally.

In the 2nd year the compulsory subject (Applying the Law) is assessed via an external exam. The course then allows the optional subject to be assessed internally.

Entry requirements:

Due to the demanding nature of this course, candidates are required to hold at least 5 GCSEs at grade C or above, including a Humanities subject and at least a grade B in English Language.

Your options after the course:

The course runs over 2 years and is equivalent in size to 1 A level. The qualification gives a comprehensible starter to the study of law and provides the basis of a first-rate route for the pursuit of a career in the legal sector.



GWYDDONIAETH FEDDYGOL

DIPLOMA LEFEL 3 CBAC / YSGOL JOHN BRIGHT

Beth fyddwch yn ei astudio?

Mae'r cwrs yma'n ymdrin â gofalu am yr iechyd ac atal a thrin clefydau. Yn ogystal â dysgu elfennau sylfaenol Bioleg, Systemau Biolegol ac Iechyd a Chlefydau Dynol, mae'r cymhwyster yn ymwneud ag iechyd, ffisioleg, ffarmacoleg, mesuriadau ffisiolegol, profi clinigol ac ymchwil meddygol.

I bwy mae'r cwrs?

Mae Diploma Lefel 3 CBAC mewn Gwyddoniaeth Feddygol:

- wedi'i lunio i gefnogi symudiad y dysgwyr i mewn i addysg uwch neu gyflogaeth;
- i ddysgwyr sydd â diddordeb brwdfrydig mewn gwyddoniaeth ond sydd hefyd eisiau datblygu eu sgiliau ymarferol a rhyngpersonol;
- yn berffaith i ddysgwyr a fyddai'n hoffi gyrfa yn y sector sy'n ymwneud ag iechyd neu wyddoniaeth.

Ni ddyliai y cwrs yma gael ei astudio ochr-yn-ochr a UA / level A gwyddoniaeth eraill.

Sut gewch chi eich asesu?

Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau wedi'u hasesu'n fewnol ac yn allanol sy'n cyfrif am fwy na 60% o'r cwrs, a dau arholiad sy'n cyfrif am weddill y cwrs. Mae hi werth nodi bod lleiafswm marc i'w ennill yn yr arholiadau hyn er mwyn cael graddau A* - C.

Gofynion Mynediad:

- Lleiafswm o C neu gyfatebol mewn cwrs Gwyddoniaeth.
- Lleiafswm o C mewn Mathemateg a Saesneg.

Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Nod y cymhwyster yma yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth wyddonol i ddysgwyr, yn ogystal â sgiliau ymarferol a fyddai'n cefnogi eu symudiad i nifer o swyddi mewn gofal iechyd neu mewn gwyddorau bywyd. Opsiwn arall fyddai cyfleoedd i symud ymlaen i swyddi yn y gwyddorau ffisiolegol, gan weithio'n uniongyrchol gyda chleifion, mesur a gwerthuso organau a systemau penodol, e.e. gwyddonwyr yn gweithio mewn niwroffisioleg sy'n cofnodi'r gweithredu trydanol yn yr ymennydd

MEDICAL SCIENCE

WJEC LEVEL 3 DIPLOMA / YSGOL JOHN BRIGHT

What will you study?

This course deals with the maintenance of health and the prevention and treatment of diseases. As well as learning the fundamentals of Biology, Biological Systems and Human Health and Disease, the qualification covers health, physiology, pharmacology, physiological measurement, clinical testing and medical research.

Who is the course for?

The Medical Science WJEC Level 3 Diploma is:

- designed to support learner progression into higher education or employment;
- for learners who have a keen interest in science but who also want to develop their interpersonal and practical skills;
- perfect for learners who would like to pursue a career in the health related or science related Sector.

This course should not be taken in conjunction with other science A levels.

How will you be assessed?

The course is a mixture of internally and externally assessed tasks accounting for over 60% of the course, and two examinations accounting for the remainder of the course. It is worth noting that in order to gain A* - C grades there is a minimum mark that must be achieved in these examinations.

Entry Requirements:

- A minimum of a C or equivalent in a Science course.
- A minimum of a C in Maths and English.

Your options after the course:

This qualification aims to equip learners with scientific knowledge and understanding, as well as practical skills that would support progression to a range of job roles within health care or life sciences. Alternatively there would also be opportunities to progress to job roles within the physiological sciences, working directly with patients, measuring and evaluating particular organs and systems, such as scientists working in neurophysiology recording the electrical activity in the brain.



CERDDORIAETH

LEFEL A CBAC / YSGOL JOHN BRIGHT A PHARTNERIAETH
YSGOL Y CREUDDYN AC YSGOL DYFFRYN CONWY

Beth fyddwch yn ei astudio?

- Perfformio: fel unawdydd a/neu yn rhan o ensemble.
- Cyfansoddi: yn defnyddio'r meddalwedd cyfrifiadurol "Sibelius" i gyfansoddi dau ddarn cyferbyniol o gerddoriaeth – un yn y Traddodiad Clasurol Gorllewinol ac un cyfansoddiad rhydd.
- Gwerthuso: byddwch yn astudio dwy uned – astudiaeth o Draddodiad Clasurol Gorllewinol ac astudiaeth o Theatr Gerdd (sioeau gan Cole Porter, Richard Rodgers, Claude-Michel Schonberg ac Andrew Lloyd Webber).

I bwy mae'r cwrs?

Dysgwyr sydd â

- diddordeb brwd mewn gwneud cerddoriaeth fel hobi;
- diddordeb mewn gwrando ar amrywiaeth o fathau o gerddoriaeth;
- profiad o ganu neu chwarae offeryn cerddorol;
- lefelau uchel o hunanddisgyblaeth i ymarfer a gwella eich gwaith ar gyfer cynulleidfâ;
- sgiliau cymdeithasol, cyfathrebu a rhyngpersonol da i weithio gyda cherddorion eraill mewn ensemble;
- rheiny sydd eisiau astudio hwn neu unrhyw bwnc ar lefel Prifysgol neu Goleg.

Sut gewch chi eich asesu?

Mae arholiadau perfformio'n digwydd rywbrud rhwng Mawrth ac Ebrill; bydd angen cwblhau'r gwaith cwrs cyfansoddi yn nhymor y gwanwyn a bydd yr arholiad gwerthuso'n digwydd yn nhymor yr haf.

Gofynion mynediad?

TGAU gradd B neu'n uwch mewn Cerddoriaeth, neu gymhwyster perthnasol mewn theori cerdd (e.e. gradd 5 theori). Felly mae'n hanfodol bod dysgwyr sy'n cymryd y cwrs yma'n derbyn gwersi llais neu offerynnau rheolaidd gyda thiwtor proffesiynol.

Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Mae canran uchel o fyfyrwyr sy'n astudio Cerddoriaeth yn dewis parhau eu hastudiaeth o'r pwnc mewn Conservatoires neu Brifysgolion. Mae addysgwyr o'r fath yn rhoi gwerth mawr ar gwrs TGA CBAC am ei fod yn paratoi myfyrwyr yn dda ar gyfer astudio ar lefel Diploma, Diploma Uwch a Gradd. Ond gall myfyrwyr hefyd ddewis gwneud Cerddoriaeth fel hobi.

*Nodwch os gwelwch yn dda: ** Darperir y cwrs partneriaeth rhwng Ysgol y Creuddyn ac Ysgol Dyffryn Conwy yn ôl eu hamserlenni ac nid ar ddydd Mercher*

MUSIC

WJEC A LEVEL / YSGOL JOHN BRIGHT AND THE YSGOL Y
CREUDDYN & YSGOL DYFFRYN CONWY PARTNERSHIP

What will you study?

- Performing: as a soloist and/or part of an ensemble.
- Composing: using the "Sibelius" computer software to compose two contrasting pieces of music - one in the Western Classical Tradition plus one free composition.
- Appraising: two areas of study - a study of Western Classical Tradition plus a study of Musical Theatre (shows by Cole Porter, Richard Rodgers, Claude-Michel Schonberg and Andrew Lloyd Webber).

Who is the course for?

Learners who have:

- a keen interest in making music as a hobby;
- an interest in listening to a variety of styles of music;
- experience of playing an instrument or singing;
- high levels of self discipline to rehearse and refine work for an audience;
- advanced social, communication and inter-personal skills to work with other musicians in an ensemble setting;
- those who want to study this or any subject at University or College level.

How will you be assessed?

Performing exams take place between March and April; composition coursework needs to be completed in the spring term and the appraising exam will be in the summer term.

Entry requirements:


GCSE in Music at grade B or above, or relevant music theory qualification (e.g. grade 5 theory). It is essential learners taking this course have regular vocal or instrumental lessons with a professional tutor.

Your options after the course:

A high percentage of learners who study Music opt to study at Conservatoires or Universities. The WJEC GCE course is rated highly by such educators as it prepares learners well for studying at Diploma, Advanced Diploma and Degree level. However, learners may also opt to pursue Music as a hobby.

*Please note: ** The partnership course between Ysgol y Creuddyn and Ysgol Dyffryn Conwy is delivered according to their timetables and not on a Wednesday*





This course is so enjoyable as well as learning something new. Music is something I would like to do in the future. I like being out of school in a different environment and different atmosphere. I would definitely recommend taking this course because it is fun!

CERDDORIAETH

DIPLOMA ATODOL BTEC MEWN CERDDORIAETH /
YSGOL ABERCONWY

Beth fyddwch yn ei astudio?

- Trwy gyfrwng asesiad parhaol mae'r cwrs cyffrous yma'n canolbwyntio ar berfformiad cerddorol.
- Mae'r cwrs yn weddol hyblyg gan olygu y gallwch astudio eich diddordebau cerddoriaeth personol.
- Perfformiadau unawd a grŵp yn ogystal â gweithio ar gyfansoddi a recordio caneuon ac archwilio'r diwydiant cerddoriaeth yn gyffredinol.
- Y sgiliau i lwyddo yn y diwydiant cerddoriaeth.
- Unedau mewn perfformiad (cerddoriaeth boblogaidd a theatr gerddorol) a chyfansoddi.

I bwy mae'r cwrs?

Dysgwyr sydd â

- diddordeb brwd mewn creu cerddoriaeth fel hobi neu sydd eisieu astudio'r pwnc ar lefel uwch ac a fyddai'n dewis llwybr llai 'clasurol' na'r Lefel A;
- lefelau uchel o hunanddisgyblaeth i ymarfer a gwella eich gwaith ar gyfer cynulleidfya a chadw at ofynion amser;
- sgiliau cymdeithasol, cyfathrebu a rhyngpersonol ar lefel uwch i weithio gyda cherddorion eraill mewn ensemble.

Sut gewch chi eich asesu?

Mae'r asesiad yn barhaol drwy raglen o aseiniadau.

Gofynion mynediad:

Nid oes angen bod â chymhwyster TGAU mewn Cerddoriaeth na graddau offerynnol, er y byddai'r ddau'n fanteisiol. Mae rhywfaint o brofiad o berfformio naill ai'n lleisiol neu ar offeryn yn ddefnyddiol. Mae'n hanfodol bod dysgwyr sy'n dilyn y cwrs yma'n mwynhau gwrandao ar gerddoriaeth a pherfformio cerddoriaeth yn ogystal â bod yn barod i ddysgu sgiliau cyfansoddi.

Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Mae canran uchel o fyfyrwyr sy'n astudio Cerddoriaeth yn dewis astudio mewn Colegau Celfyddydau Perfformio, Conservatoire, Prifysgolion a Cholegau. Ond, gallai dysgwyr hefyd ddewis dilyn cerddoriaeth fel hobi.

MUSIC

BTEC SUBSIDIARY DIPLOMA IN MUSIC /
YSGOL ABERCONWY

What will you study?

- Through a means of continuous assessment this exciting course focuses on music performance.
- The course is quite flexible meaning you can study your personal musical interests.
- Solo and group performances as well as working on song composition and recording and examining the music industry in general.
- Skills to succeed in the music industry.
- Units in performance (popular music and musical theatre) and composition.

Who is the course for?

Learners who have:

- a keen interest in making music as a hobby or want to study the subject at a higher level and would prefer a less 'classical' route than the A Level;
- high levels of self discipline to rehearse and refine work for an audience and stick to deadlines;
- advanced social, communication and inter-personal skills to work with other musicians in an ensemble setting.

How will you be assessed?

Assessment is continuous through an assignment programme.

Entry requirements:

Neither a GCSE in Music or instrumental grades are necessary, although both would be advantageous. Some experience of performing either vocally or on an instrument is useful. It is essential that learners taking this course enjoy listening to and performing music as well as being willing to learn skills in composition.

Your options after the course:

A high percentage of learners who study Music opt to study at Performing Arts Colleges, Conservatoires, Universities and Colleges. However, learners may also opt to pursue Music as a hobby.

CELFYDDYDAU PERFFORMIO (Theatr Gerdd)

TYSTYSGRIF ESTYNEDIG BTEC / YSGOL EMRYS AP IWAN

Beth fyddwch yn ei astudio?

Tair uned orfodol ac un uned opsiynol:

- Archwilio gwaith ymarferwyr Drama.
- Datblygu sgiliau ar gyfer perfformiad byw.
- Gweithdy perfformiad grŵp.
- Technegau Theatr Gerdd.

I bwy mae'r cwrs?

Dysgwyr sydd:

- mwynhau perfformio theatr gerddorol, am ei bod yn cynnig cyflwyniad eang i'r sector Celfyddydau Perfformio, gyda phwyslais ar wybodaeth graidd a sgiliau trosglwyddadwy sylfaenol;
- eisiau cael cipolwg ar natur y diwydiant a'r swyddi sydd ar gael ynddo ar hyn o bryd, ynghyd â chyfyngiadau a phroblemau sy'n wynebu pobl broffesiynol sy'n gweithio yn y sector celfyddydau perfformio.

Sut gewch chi eich asesu?

Mae'r asesiad yn barhaus gydag amrywiaeth o aseiniadau ymarferol ac ysgrifenedig i ddangos eich bod yn gallu datblygu a defnyddio sgiliau a thechnegau priodol. Bydd perfformiadau/ ymarferion wedi'u recordio ar DVD abyddwch yn cwblhau traethodau ysgrifenedig a myfyrion ar waith yr ydych ar eu canol a pherfformiadau.

Gofynion mynediad:

TGAU mewn Drama, neu'r Celfyddydau Mynegiannol a rhywfaint o allu neu brofiad blaenorol mewn canu a dawnsio hyd safon Gradd 3 o leiaf.

Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Bydd y cwrs yma'n rhoi sylfaen addysgol eang i'r perfformiwr ar gyfer gwneud astudiaeth bellach, hyfforddiant a chael swydd yn y sector Celfyddydau Perfformio.

PERFORMING ARTS (Musical Theatre)

BTEC EXTENDED CERTIFICATE / YSGOL EMRYS AP IWAN

What will you study?

Three mandatory and one optional units:

- Investigating Drama practitioners work.
- Developing skills for live performance.
- Group performance workshop.
- Musical Theatre Techniques.

Who is the course for?

Learners who:

- enjoy performing musical theatre, as it offers a broad introduction to the Performing Arts sector, with an emphasis on core knowledge and fundamental transferrable skills;
- want to gain an insight into the nature of the industry and current employment opportunities, along with constraints and issues facing professionals working within the performing arts sector.

How will you be assessed?

Assessment is on-going with a variety of practical and written assignments demonstrating an ability to develop and use appropriate skills and techniques. Performances/ rehearsals will be recorded on DVD and you will complete written essays and reflections on work in progress and performances.

Entry requirements:

GCSE in Drama, or Expressive Arts and some ability or previous experience in singing and dancing to at least Grade 3 standard.

Your options after the course:

This course will provide the performer with a broad educational base for further studying, training and employment within the Performing Arts sector.



CELFYDDYDAU PERFFORMIO (Dawns)

TYSTYSGRIF ESTYNEDIG BTEC / YSGOL ABERCONWY

Mae'r cwrs cyffrous a hyblyg hwn i unrhyw ddysgwyr sydd â gwir ddiddordeb mewn dawns, naill ai fel perfformiwr neu fel coreograffydd

Beth fyddwch chi'n ei astudio?

Rydym yn ffodus ein bod yn gallu dewis yr unedau priodol sy'n addas i'r garfan gyfredol, felly mae'r cwrs yn cael ei deilwra'n arbennig bob blwyddyn.

Byddwch yn astudio pum uned:

- Gweithdy perfformiad grŵp (sy'n cael ei osod yn allanol ac sy'n orfodol)
- Datblygu sgiliau a thechnegau ar gyfer Perfformiad (gorfodol)
- Yna, rydym yn dewis tair uned ychwanegol, a allai gynnwys Dawns Jazz, Tap, Cyfoes a Choreograffi ar gyfer Perfformio Byw

I bwy mae'r cwrs?

Dysgwyr sydd:

- yn mwynhau perfformio ac sydd am ddatblygu eu sgiliau perfformio;
- eisiau astudio'r diwydiant celfyddydau perfformio a gwaith.

Sut fyddwch chi'n cael eich hasesu?

Byddwch yn cael eich asesu trwy weithgareddau ymarferol a thrwy fyfyrio a gwerthuso. Byddwn yn gwneud defnydd sylweddol o gyfryngau digidol, gan leihau'n sylweddol faint yr ysgrifennu.

Gofynion mynediad:

Ymrwymiad i'r Celfyddydau Perfformio. Efallai eich bod wedi cymryd cyrsiau TGAU yn y Celfyddydau Perfformio, wedi cymryd rhan mewn cynhyrchiad ysgol neu gymunedol neu efallai eich bod wedi cymryd rhan mewn gwersi Dawns.

Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Bydd y cwrs hwn yn rhoi y sgiliau a'r dealltwriaeth i chi i astudio'r Celfyddydau Perfformio yn y Brifysgol neu mewn ysgol Ddawns / Drama.

PERFORMING ARTS (Dance)

BTEC EXTENDED CERTIFICATE / YSGOL ABERCONWY

This exciting and versatile course is for any learner who has a real interest in dance, either as a performer or as a choreographer.

What will you study?

We are lucky to be able to choose the appropriate units that suit the current cohort, therefore the course is tailor made each year.

You will study five units:

- Group performance workshop (externally set and compulsory)
- Developing skills and techniques for Performance (compulsory)
- We then choose three additional units, which could include Jazz Dance, Tap, Contemporary and Choreography for Live Performance.

Who is the course for?

Learners who:

- enjoy performing and who want to develop their performing skills;
- want to gain an insight into the performing arts industry and employment opportunities.

How will you be assessed?

You will be assessed through practical activities and through reflection and evaluation. We will make significant use of digital media, greatly reducing the amount of writing.

Entry requirements:

A passion for Performing Arts. You may have taken GCSE courses in the Performing Arts, participated in a school or community production or you may have Dance lessons.

Your options after the course:

This course will provide you with the skills and understanding to study the Performing Arts at University or Dance / Drama schools.



FFOTOGRAFFIAETH

LEFEL A CBAC / COLEG LLANDRILLO

Beth fyddwch yn astudio?

- Sgiliau technegol priodol mewn ffotograffiaeth ddigidol a du a gwyn.
- Datblygu gwybodaeth artistig a chreadigol sy'n gysylltiedig â ffotograffiaeth.
- Astudio gwaith ffotograffwyr eraill yn fanwl.

I bwy mae'r cwrs?

- Dysgwyr sy'n gobeithio astudio ffotograffiaeth ar lefel uwch neu sydd eisiau cael swydd yn amgylchedd dynamig y byd ffotograffiaeth.
- Gall y dysgwyr ddysgu drwy gyfrwng y Saesneg, y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Sut gewch chi eich asesu?

- Yn ystod y flwyddyn gyntaf, i gael y Lefel AS, byddwch yn cwblhau un uned gwaith cwrs, sy'n cyfateb i 40% o'r cymhwyster Lefel A llawn. Caiff yr uned hon ei hasesu drwy gyfuniad o asesiadau interim ac adborth a chaiff ei safoni'n allanol ar derfyn y flwyddyn AS.
- Yn ystod yr ail flwyddyn, i gael y Lefel A llawn, byddwch yn cwblhau 'Ymchwiliad Personol' ac 'Aseiniad a Osodwyd yn Allanol' a fydd, gyda'i gilydd, yn cyfateb i 60% o'r cymhwyster Lefel A llawn.

Gofynion mynediad:

Y gofynion mynediad yw lleiafswm o 4 TGAU Gradd C neu'n uwch. Bydd angen i chi ddangos diddordeb brwd mewn Ffotograffiaeth.

Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Mae'r cwrs yma'n ychwanegu at eich cymwysterau ac yn eich helpu i symud ymlaen. Byddwch yn ennill pwyntiau UCAS a byddwch yn gallu defnyddio'r rhain tuag at eich cais am gwrs Addysg Uwch.

PHOTOGRAPHY

WJEC A LEVEL / COLEG LLANDRILLO

What will you study?

- Appropriate technical skills in black and white and digital photography.
- The development of artistic and creative knowledge associated with photography.
- Studying the work of other photographers in some depth.

Who is the course for?

- Learners who have aspirations of studying photography at a higher level or wishing to gain employment within the dynamic environment of photography.
- Learners can learn through the medium of English, Welsh-medium and bilingually.

How will you be assessed?

- In the first year, to achieve the AS Level, you will complete a single coursework unit equating to 40% of the full A Level. This is assessed via a blend of interim assessment and feedback, with final external moderation taking place at the end of the AS year.
- In the second year, to achieve the full A Level, you will also complete a 'Personal Investigation' plus 'Externally Set Assignment' which together will equate to 60% of the full A Level.

Entry requirements:

A minimum of 4 GCSEs Grade C or above. You will need to demonstrate a keen interest in Photography.

Your options after the course:

This course adds to your qualifications and helps you to progress. You will gain UCAS points and be able to use these towards your application for a Higher Education course.



SEICOLEG

LEFEL A CBAC / COLEG LLANDRILLO

Beth fyddwch yn ei astudio?

Y diffiniad a roddir am Seicoleg yw gwyddoniaeth y meddwl a'r ymddygiad.

Bydd y cwrs Lefel A yn ymdrin â phum ymagwedd.

- Biolegol, Ymddygiadol, Gwybyddol, Seicodynameg a Phositif. Mae pob ymagwedd yn ceisio esbonio ymddygiad dynol mewn ffordd wahanol.
- Byddwch hefyd yn dysgu sut mae Gwaith ymchwil seicolegol yn cael ei lunio, ei weithredu a'i ddadansoddi, yn ogystal ag edrych ar bum dadl gyfoes mewn Seicoleg – o faint y gallwch ddibynnu ar dystiolaeth tystion i foeseq niwrowyddoniaeth.

I bwy mae'r cwrs?

Mae'r cwrs yn agored i ddysgwyr sydd eisiau:

- dilyn gyrfa mewn Seicoleg neu sydd â diddordeb cyffredinol mewn ymddygiad dynol. Mae'n gweithio'n dda gyda'r mwyafrif o gyfuniadau pynciau Lefel A;
- cael golwg gyffredinol ar y pwnc, ac nid yw'n tybio bod gennych wybodaeth am y pwnc yn barod. Ond, dylech fod â meddwl gwyddonol a chwilfrydig, gan fwynhau tasgau ysgrifenedig estynedig a theimlo'n gyfforddus yn dadansoddi data.

Sut gewch chi eich asesu?

Arholir yr UG gyda dau arholiad ysgrifenedig ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd y Lefel A yn cael ei asesu drwy ddau arholiad ysgrifenedig pellach ar ddiwedd blwyddyn dau.

Gofynion mynediad:

TGAU gradd B neu'n uwch mewn Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg neu Rifedd a Gwyddoniaeth.

Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Efallai y byddwch yn penderfynu gwneud cais am radd gyntaf mewn Seicoleg neu bwnc perthnasol, neu fynd i mewn i swydd. Ymysg y llwybrau gyrfaol posibl mae Seicoleg Glinigol neu Iechyd, Addysg, Hysbysebu, Seicoleg Chwaraeon, Seicoleg Fforensig a Marchnata neu Droseddeg.

Sylwer: Bydd y ddarpariaeth LINC Seicoleg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei gynnal drwy ddarpariaeth Fideo-gynhadledd dan ofal Sgiliaith.

PSYCHOLOGY

WJEC A LEVEL / COLEG LLANDRILLO

What will you study?

Psychology is defined as the science of the mind and behaviour.

The A Level course will cover five approaches.

- Biological, Behaviourist, Cognitive, Psychodynamic and Positive. Each approach attempts to explain human behaviour in a different way.
- You will also learn about how psychological research is designed, conducted and analysed, as well as looking at five contemporary debates in Psychology – from the reliability of eyewitness testimony to the ethics of neuroscience.

Who is the course for?

The course is open to learners wishing to:

- pursue a career in Psychology or who have a general interest in human behaviour. It works well with most A Level subject combinations;
- gain an overview of the subject, and assumes no prior knowledge. However, you should have a scientific and enquiring mind, enjoy extended writing tasks and be comfortable analysing data.

How will you be assessed?

The AS is examined through two written examinations at the end of the year. The A Level will be assessed through two further written exams at the end of year two.

Entry requirements:

A GCSE grade B or above in English or Welsh, Maths or Numeracy and Science.

Your options after the course:

You may decide to apply for an undergraduate degree in Psychology or related subject, or enter employment. Possible career paths include Health or Clinical Psychology, Education, Advertising, Sports Psychology, Marketing and Forensic Psychology or Criminology.

Please note: LINC Psychology provision through the medium of Welsh will be conducted through a Video Conferencing provision hosted by Sgiliaith.





GWASANAETHAU CYHOEDDUS: GWASANAETHAU DIOGELU MEWN LIFRAI

DIPLOMA SYLFAEN CENEDLAETHOL BTEC /
YSGOL BRYN ELIAN

Beth fyddwch yn ei astudio?

- Mae'r unedau gorfodol yn ymdrin â Dinasyddiaeth ac Amrywiaeth, Ymddygiad a Disgyblaeth yn y Gwasanaethau mewn Lifrai, Paratoi'n Gorfforol, a Thim ac Arweinyddiaeth yn y Gwasanaethau Cyhoeddus mewn Lifrai.
- Byddwch yn cwblhau pumed uned ychwanegol hefyd.
- Mae ystod o athrawon yn darparu'r cwrs, yn unol â'u gwybodaeth arbenigol, gyda chymorth ymweliadau a sgysiau gan aelodau o'r gwasanaethau cyhoeddus

I bwy mae'r cwrs?

- Dysgwyr sydd â diddordeb mewn gyrfa yn un o'r gwasanaethau arfog megis y Fyddin, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub neu un o'r meysydd niferus o gyflogaeth y llywodraeth leol neu genedlaethol megis y Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng neu Wasanaeth Erllyn y Goron.
- Dysgwyr sydd eisiau dilyn cwrs a fydd yn rhoi gwybod iddynt am syniadau megis y Gyfraith, y Llysoedd, y Cyfryngau, Dinasyddiaeth a Hawliau Dynol.
- Mae'n gwrs sy'n ennyn parch mawr ac mae'n pwysleisio dysgu realistig ac yn rhoi ffocws ar waith.

Sut gewch chi eich asesu?

Asesir y dysgwyr mewn un uned gydag arholiad ar y diwedd. Asesir y bedair uned sy'n weddill drwy aseiniadau. Gwneir y aseiniadau drwy aseiniadau ysgrifenedig a datganiadau tystion am weithgareddau ymarferol a gynlluniwch, a wnewch ac a adolygwch.

Astudir y cymhwyster hwn dros ddwy flynedd ac mae'n gyfatebol â 1.5 Lefel A.

Gofynion mynediad:

Gall myfyrwyr sy'n ennill gradd C am Saesneg ochr yn ochr â chymwysterau eraill ar Lefel 2 wneud yn dda ar y cwrs yma.

Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Mae'r cwrs yn baratoad rhagorol ar gyfer gyrfa yn un o'r gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ystod gyfan o gyflogwyr yn cydnabod hwn. Mae hefyd yn denu yr un pwyntiau UCAS ag 1.5 Lefel ac yn sail gadarn ar gyfer addysg bellach neu uwch.

PUBLIC SERVICES: UNIFORMED PROTECTIVE SERVICES

BTEC NATIONAL FOUNDATION DIPLOMA /
YSGOL BRYN ELIAN

What will you study?

- Compulsory units cover Citizenship and Diversity, Behaviour and Discipline in the Uniformed Services, Physical Preparation, and Team and Leadership in the Uniformed Public Services.
- A fifth additional unit will also be completed.
- A range of teachers deliver the course, according to their specialist knowledge, aided by visits and talks from members of the public services.

Who is the course for?

